

Adroddiad y Gymraeg 2025-26

Medi 2026

Paratowyd yr adroddiad blynyddol hwn yn unol â Safonau'r Gymraeg 152, 158 a 164, ac mae'n amlygu sut y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a osodwyd arnynt gan Gomisiynydd y Gymraeg, fel a nodir yn yr Hysbysiadau Cydymffurfio priodol.

- Hysbysiad Cydymffurfio Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Hysbysiad Cydymffurfio Swyddfa Archwilio Cymru

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Yn ogystal ag amlinellu cydymffurfiaeth gyffredinol, mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys yr wybodaeth benodol y mae'r Safonau'n ei gwneud yn ofynnol ei chyhoeddi'n flynyddol. Mae hyn yn cynnwys data ar nifer y cwynion yr ydym wedi'u cael, lefelau Cymraeg ein staff, yr hyfforddiant yr ydym yn ei gynnig trwy gyfrwng y Gymraeg, a'r lefel o Gymraeg a oedd yn ofynnol ar gyfer pob swydd wag a newydd a hysbysebwyd gennym yn ystod y flwyddyn ariannol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.

Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Llywodraethu	5
Diwylliant	8
Darpariaeth	10
Edrych tua'r dyfodol	14

Cyflwyniad

- 1 Mae'r adroddiad hwn ar y Gymraeg yn amlinellu'r gwaith a wnaed yn ystod 2025-26 i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac i hybu defnyddio'r Gymraeg ar draws Archwilio Cymru. Mae'n darparu trosolwg o sut y mae'r sefydliad yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol gan hefyd wreiddio'r Gymraeg yn fwy llawn mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd.
- 2 Er mai asesu cydymffurfiaeth yw prif ddiben yr adroddiad hwn, mae hefyd yn gyfle i fyfrio ynghylch y cynnydd o ran cyflawni ein Strategaeth ar gyfer y Gymraeg, sydd bellach yn ei blwyddyn olaf. Felly mae'r adroddiad yn ystyried perfformiad yn erbyn y Safonau ac effaith ehangach ein dull strategol.
- 3 Mae ein cydymffurfiaeth yn gyffredinol â'r safonau wedi aros yn uchel gyda'n holiadur hunanasesu yn nodi meysydd gallwn wella gan gynnwys hyfforddi staff, ansawdd data, a gohebiaeth. Mae gweithgareddau i ymdrin â'r meysydd hyn wedi bod yn rhan o'n rhaglen waith yn ystod 2025-26. Mae'r strategaeth yn rhoi arweiniad o ran ein dull trwy dri chonglfaen craidd – llywodraethu, diwylliant a chyflawni – ac fe'i tanategir gan ein cyfrifoldebau dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 4 Ategir y conglfeini hyn gan drefniadau llywodraethu sefydledig, gweithgarwch cynllunio'r gweithlu, a mentrau wedi'u targedu i feithrin sgiliau a hyder. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn ein galluogi i gryfhau ein gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, creu diwylliant lle caiff yr iaith ei gweld, ei chlywed a'i defnyddio ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 5 Mae Archwilio Cymru'n parhau i fuddsoddi yn y Gymraeg i ategu cydymffurfiaeth, datblygu gallu'r gweithlu, a chryfhau ymgysylltiad â chyrff a archwilir a rhanddeiliaid.
- 6 Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gwneud cynnydd mewn meysydd megis recriwtio, hyfforddiant, ansawdd data a hybu'r iaith yn fewnol. Ar yr un pryd, mae'r adroddiad yn cydnabod mai proses barhaus yw gwella.
- 7 Yn y cyd-destun hwn, cafodd cwyn a ddaeth i law yn wreiddiol yn 2024-25 ei hail-agor a'i chadarnhau'n ddiweddarach gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod 2025-26. Er bod hyn yn amlygu maes lle na wnaeth ein trefniadau gyrraedd y safon ofynnol, rydym wedi cymryd camau i ymdrin â'r materion a adnabuwyd ac i atgyfnerthu ein prosesau a chanllawiau.

Llywodraethu

- 8 Ein huchelgais yw datblygu model llywodraethu cadarn, a danategir gan ein defnydd o ddata a dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro cynnydd y strategaeth, adnabod meysydd ar gyfer gwella a darparu sicrwydd rheolaidd ar gyfer y Tîm Arwain Gweithredol, y Bwrdd a Chomisiynydd y Gymraeg.

Gweithgareddau yn 2025-26

- 9 Mae goruchwyliaeth a chanllawiau ynghylch gwireddu ein huchelgeisiau strategol a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn parhau i gael eu darparu gan Grŵp Strategaeth y Gymraeg. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth, mae'n cwrdd yn fisol, ac mae'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol Moderneiddio ac Effaith Archwilio.
- 10 Adroddir ar gynnydd yn erbyn ein hamcanion o ran y Gymraeg bob chwe mis wrth y Tîm Arwain Gweithredol ac yn flynyddol wrth y Bwrdd, gan sicrhau craffu ac atebolrwydd rheolaidd ar uwch lefelau.
- 11 Caiff ein tri nod strategol eu nodi dan bob pennawd yn yr adroddiad hwn:
- Llywodraethu – pa mor dda yr ydym yn monitro ac yn mesur ein perfformiad, y camau gweithredu a gymerwn i gyrraedd ein nodau ac arweinyddiaeth ar ein huchelgeisiau o ran y Gymraeg.
 - Diwylliant – sut yr ydym yn creu amgylchedd cefnogol lle gall ein staff 'weld, clywed a defnyddio' y Gymraeg a lle anogir pobl o bob gallu i ddefnyddio'r iaith a datblygu eu sgiliau a'u hyder.
 - Darpariaeth – pa mor effeithiol yr ydym yn diwallu anghenion Cymraeg cyrff a archwilir a rhanddeiliaid eraill ac yn cydymffurfio â'n safonau.
- 12 Caiff ein trefniadau cydymffurfio ar gyfer Safonau'r Gymraeg eu cyhoeddi ar ein gwefan. Swyddog y Gymraeg sy'n gyfrifol am weithredu o ddydd i ddydd, ac ef hefyd sy'n hybu defnyddio'r Gymraeg ar draws y sefydliad.

- 13 Mae ein polisi Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol yn darparu canllawiau i staff ynghylch defnyddio'r iaith yn y gweithle. Mae'r polisi hwn, ochr yn ochr ag adnoddau ategol, ar gael ar ar ein mewnwyd, yr Hwb mewn ardal a neilltuwyd i'r Gymraeg. Mae Swyddog y Gymraeg yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad i sicrhau bod ystyriaethau o ran y Gymraeg yn cael eu hadlewyrchu'n gyson mewn canllawiau i staff.
- 14 Yn ystod y flwyddyn, mae asesiadau effaith wedi cael eu cynnal ar gyfer prosiectau a pholisïau allweddol i sicrhau y cydymffurfir â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys:
 - Cod Ymddygiad Archwilio Cymru
 - Polisi Gweithio'n Ddoethach
 - Plattfform e-ddysgu
 - Prosesau adborth 360
 - Polisi Absenoldeb Anabledd
 - Cymell yn ystod Mamolaeth – o Safbwynt Rhiant ac o Safbwynt Proffesiynol
- 15 Mae'r asesiadau hyn yn ofynnol ar gyfer yr holl bolisïau newydd a diwygiedig i sicrhau eu bod yn ategu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 16 Mae ystyriaethau o ran y Gymraeg bellach yn rhan o gylch gwaith Grŵp Cynllunio'r Gweithlu Strategol, gan sicrhau bod gweithgareddau cynllunio'r gweithlu, recriwtio, dysgu a datblygu, a llesiant staff yn rhoi cymorth gweithredol i ddefnyddio a datblygu sgiliau Cymraeg ar draws y sefydliad. Mae hyn yn darparu fforwm strwythuredig ar gyfer monitro cynnydd, adnabod bylchau mewn gallu, a gwreiddio amcanion o ran y Gymraeg o fewn blaenoriaethau ehangach sy'n ymwneud â phobl a datblygu sefydliadol.
- 17 Mae'r Gymraeg wedi cael ei hymgorffori yng nghofrestrau risgiau strategol a gweithredol y sefydliad, gan gydnabod y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â pheidio â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ddarparu gwasanaethau, enw da, a hyder rhanddeiliaid.
- 18 Mae hyn yn sicrhau bod risgiau o ran y Gymraeg yn cael eu monitro'n ffurfiol, eu hadolygu'n rheolaidd, a'u bod yn destun camau lliniaru priodol fel rhan o drefniadau llywodraethu a rheoli risg y sefydliad ar y cyfan, sy'n hanfodol i roi cymorth i gyflawni amcanion strategol.

- 19 Mae ein hymrwymiaidau o ran y Gymraeg yn cyd-fynd â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2026-30, gan ategu ein cyfrifoldebau ehangach dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb i ddileu gwahaniaethu, darparu cyfle cyfartal, a meithrin arferion gweithio cynhwysol.
- 20 Mae'r aliniad hwn yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin fel rhan annatod o'n dull o ymdrin â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a'i bod wedi'i gwreiddio yn y modd yr ydym yn dylunio polisïau, yn darparu gwasanaethau, ac yn ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid.

Cwynion

- 21 Yn ystod 2025-26, cafodd cwyn am ddarparu gwasanaethau a ddaeth i law yn wreiddiol yn 2024-25 ei hail-agor gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol. Roedd y gŵyn yn ymwneud â negeseuon e-bost a anfonwyd at glerc cyngor cymuned yn Saesneg, ar ôl i'r clerc ofyn i ni gyfathrebu yn Gymraeg.
- 22 Ar ôl ystyried y dystiolaeth ychwanegol, fe gadarnhaodd Comisiynydd y Gymraeg y gŵyn yn erbyn Archwilio Cymru.
- 23 Mewn ymateb, rydym wedi cymryd y camau gweithredu canlynol i gryfhau ein trefniadau a lleihau'r risg y bydd hynny'n digwydd eto:
 - Wedi atgyfnerthu'r angen i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ein proses sefydlu ar gyfer staff.
 - Wedi diweddarau hyfforddiant i'r holl staff sy'n rhan o archwiliadau o gynghorau tref a chymuned i gynnwys sylw i Safonau'r Gymraeg, ymwybyddiaeth o ddewisiadau iaith, a chanllawiau ynghylch cael mynediad at systemau gwybodaeth perthnasol, ochr yn ochr ag atgyfnerthu pwysigrwydd cydymffurfio.
 - Wedi cynnal adolygiad mewnol o gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â'n gohebiaeth gyda chynghorau tref a chymuned.
 - Wedi anfon negeseuon atgoffa at staff ar draws y sefydliad ynglŷn ag ateb gofynion dewis iaith wrth gyfathrebu gydag unigolion a chyrff a archwilir.
 - Ni chafwyd rhagor o gwynion yn ystod 2025-26.

Diwylliant

- 24 Ein huchelgais yw datblygu diwylliant lle mae pobl yn ymfalchïo yn ein statws fel corff archwilio cenedlaethol Cymru ac yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau i hybu ymwybyddiaeth o hanes a diwylliant Cymraeg, ein rhwymedigaethau statudol a chydabod pwysigrwydd hynny i gydweithwyr, cyrff a archwilir a rhanddeiliaid.

Gweithgareddau yn ystod 2025-26

- 25 Fe wnaethom ail-lansio'r Grŵp Cymraeg Rhwydiaith, sef fforwm staff i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, i ategu ein nod i sicrhau bod y Gymraeg yn gallu cael 'ei gweld, ei chlywed a'i defnyddio' ar draws y gweithle. Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar y canlynol:
- creu mannau diogel i ddysgwyr ddefnyddio a datblygu eu sgiliau; ac
 - adnabod ffyrdd ymarferol o gynorthwyo staff i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg.
- 26 Fe wnaethom gwblhau'r broses o gyflwyno ein hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys fideo a chwis a gyflwynwyd i'r holl staff trwy gyfarfodydd tîm. Mae'r hyfforddiant yn darparu trosolwg o hanes a diwylliant yr iaith ac yn amlygu ein rhwymedigaethau statudol.
- 27 Fe wnaethom barhau i hybu a chefnogi digwyddiadau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliannol ar draws y sefydliad, gan gynnwys trwy'r canlynol:
- Diwrnod Shwmae Su'mae;
 - ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg; a
 - digwyddiadau diwylliannol megis Dydd Miwsig Cymru, yn ogystal ag Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Cyfathrebu'n ddwyieithog

- 28 Rydym yn parhau i hybu diwylliant lle mae'r Gymraeg yn weladwy, yn hygyrch ac yn cael ei defnyddio'n rheolaidd ar draws y sefydliad. Rhan allweddol o hyn yw ein dull cyfathrebu, lle'r ydym yn sicrhau bod ein hallbynnau ar gael yn ddwyieithog, gan gynnwys ein gwefan, sianeli'r cyfryngau cymdeithasol, podlediadau, fideos a'r holl adroddiadau archwilio a gyhoeddir.
- 29 Rydym hefyd wedi ehangu'n sylweddol faint o gynnwys ac adnoddau Cymraeg sydd ar yr Hwb. Mae hyn yn helpu i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynorthwyo staff a rhanddeiliaid i ymgysylltu yn eu dewis iaith. Tanategir hyn gan broses gyfieithu sydd wedi hen ennill ei phlwyf ac sy'n gyforiog o adnoddau, gydag oddeutu miliwn o eiriau'n cael eu cyfieithu bob blwyddyn, gan sicrhau bod ein cyfathrebiadau'n hygyrch ac o safon gyson.
- 30 Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau hyn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad ehangach i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a gwreiddio'r iaith ar draws pob agwedd ar ein gwaith.

Darpariaeth

31 Trwy'r conglfafen darpariaeth, rydym yn ystyried pa mor effeithiol yr ydym yn diwallu anghenion Cymraeg y cyrff a archwilir gennym a'n rhanddeiliaid eraill ac yn cydymffurfio â safonau. Rydym yn sicrhau bod ein capasiti Cymraeg yn diwallu anghenion y cyrff a archwilir gennym a'n rhanddeiliaid. Fodd bynnag, ceir ffocws allweddol yma ar ein gallu i feithrin ein capasiti trwy recriwtio a hyfforddiant.

Gweithgareddau yn ystod 2025-26

Recriwtio

- 32 Mae ein dull llywodraethu o ran y Gymraeg yn rhoi pwyslais cryf ar integreiddio ystyriaethau ieithyddol fel rhan o brosesau sefydliadol craidd. Adlewyrchir hyn yn ein trefniadau recriwtio, lle mae Swyddog y Gymraeg yn rhan o bob cynnig wrth wneud cais i recriwtio.
- 33 Mae'r rheolwr sy'n recriwtio'n asesu pob cais i recriwtio gan ddefnyddio siart lif i bennu'r gofynion priodol o ran y Gymraeg ar gyfer y rôl. Caiff canlyniad yr asesiad hwn ei wirio gan Swyddog y Gymraeg.
- 34 Yn ystod 2025-26 fe wnaethom recriwtio i 19 o swyddi ar draws Archwilio Cymru, ac eithrio prosesau i recriwtio hyfforddeion a phrentisiaid. Cafodd yr holl rolau hyn eu hysbysebu fel rhai yr oedd Cymraeg yn ddymunol ar eu cyfer. Ni thybiwyd fod Cymraeg yn hanfodol ar gyfer yr un ohonynt.

Recriwtio hyfforddeion a phrentisiaid

- 35 O fewn ein hymgyrchoedd i recriwtio prentisiaid a graddedigion, ein nod yw y bydd o leiaf 20% o'n swyddi'n cael eu llenwi gan siaradwyr Cymraeg. Dengys y data ar gyfer 2025-26 fod 6 o'r 17 o swyddi y recriwtiwyd iddynt (35%) wedi cael eu llenwi gan siaradwyr Cymraeg.

	Yn Siarad Cymraeg	Ddim yn Siarad Cymraeg	Cyfanswm
Hyfforddeion	5	7	12
Prentisiaid	1	4	5
Cyfanswm	6	11	17

Sgiliau a hyfforddiant Cymraeg

- 36 Mae sgiliau Cymraeg ein staff yn cael eu hunanasesu a'u cofnodi trwy'r porth Hunanwasanaeth Cyflogai, gan ddarparu llinell sylfaen sefydliadol i fonitro gallu a goleuo'r broses o gynllunio'r gweithlu.
- 37 Gan adeiladu ar adroddiadau blaenorol, lle adnabuwyd bylchau yn y data, rydym wedi cymryd camau i gynyddu cyfraddau cwblhau. Mae hyn wedi arwain at set ddata fwy cynhwysfawr a dibynadwy ar gyfer 2025-26, gan gryfhau ein gallu i dracio cynnydd a thargedu gwelliant pellach.
- 38 I ategu dull cyson a strwythuredig, mae ein Matrics Sgiliau Cymraeg yn cyd-fynd â Fframwaith ALTE (Cymdeithas Profwyr Iaith yn Ewrop).
- 39 Mae'r fframwaith hwn yn mesur gallu ieithyddol ar draws sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, yn seiliedig ar y mathau o dasgau cyfathrebu y gall unigolion eu cyflawni.
- 40 Mae fframwaith ALTE yn cael ei ddefnyddio a'i addasu'n eang ar draws sector cyhoeddus Cymru ac mae'n cyd-fynd â gofynion Safonau'r Gymraeg.
- 41 Mae'r data canlynol yn darparu trosolwg o sgiliau Cymraeg ar draws y sefydliad ac o fewn cyfarwyddiaethau.
- 42 Mae'n dangos cynnydd o ran gwella cyflawnder ein data a dosbarthiad sgiliau ar draws gwahanol lefelau hyfedredd, gan ategu ein hymdrechion parhaus i gryfhau capasiti Cymraeg.
- 43 Er na ellir cymharu data ALTE yn uniongyrchol â setiau data cenedlaethol megis adroddiadau'r Cyfrifiad (nad ydynt yn asesu lefelau sgiliau) mae'n dynodi patrwm tebyg, gyda chyfran fawr o staff ar lefel ymwybyddiaeth a niferoedd llai a llai ar lefelau hyfedredd uwch.
- 44 Fodd bynnag, mae cyfran y staff sy'n gweithredu ar lefelau uwch (uwch a hyfedredd), yn enwedig o fewn Cyflawni Archwilio, i'w gweld yn gryfach nag y gellid ei ddisgwyl yn y boblogaeth gyffredinol.
- 45 Roedd pob hyfforddiant corfforaethol a'r rhai a restrwyd yn ein Hysbysiad Cydymffurfio ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn parhau i ymchwilio am ddarparwyr hyfforddiant dwyieithog pan fo angen.

Sgiliau Cymraeg holl staff Archwilio Cymru 2025-26 (2024-25)

Ymwybydd-iaeth	Gwranddo	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
0 Ymwybyddiaeth	122 (108)	125 (110)	129 (112)	128 (111)
1 Mynediad	29 (15)	26 (14)	28 (15)	28 (14)
2 Sylfaen	36 (9)	15 (6)	13 (3)	12 (5)
3 Canolradd	10 (7)	12 (8)	14 (11)	13 (10)
4 Uwch	11 (8)	16 (12)	5 (2)	10 (6)
5 Hyfedredd	33 (19)	28 (16)	35 (21)	30 (20)
Cyfanswm	241 (166)	222 (166)	218 (164)	221 (166)

Sgiliau Cymraeg o fewn Cyflawni Archwilio 2025-26 (2024-25)

	Gwranddo	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
0 Ymwybyddiaeth	97 (92)	100 (93)	104 (92)	103 (92)
1 Mynediad	26 (8)	23 (7)	24 (6)	21 (7)
2 Sylfaen	13 (4)	12 (2)	11 (2)	12 (3)
3 Canolradd	7 (5)	8 (5)	11 (7)	9 (6)
4 Uwch	11 (5)	16 (9)	4 (2)	10 (5)
5 Hyfedredd	29 (14)	23 (11)	30 (16)	25 (15)
Cyfanswm	183 (128)	182 (127)	184 (125)	180 (128)

Sgiliau Cymraeg o fewn Moderneiddio ac Effaith Archwilio a’r Gwasanaethau Corfforaethol 2025-26 (2024-25)

	Gwranddo	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
0 Ymwybyddiaeth	25 (20)	25 (20)	25 (20)	25 (20)
1 Mynediad	3 (3)	3 (3)	4 (3)	7 (6)
2 Sylfaen	5 (3)	3 (2)	2 (1)	2 (2)
3 Canolradd	3 (0)	4 (2)	3 (2)	4 (2)
4 Uwch	0(1)	(0)	1 (1)	(0)
5 Hyfedredd	4 (5)	5 (5)	5 (5)	5 (5)
Cyfanswm	40 (31)	40 (32)	38 (32)	41 (35)

Hyfforddiant sgiliau Cymraeg

46 Yn ystod 2025-26, cymerodd staff ran yn y cyrsiau canlynol:

Cwrs	Cyfranogwyr	Wedi Cwblhau	Ar y Gweill
Cwrs ‘Croeso’ ar-lein Cymraeg Gwaith – Rhan 1	20	17	3
Cwrs ‘Croeso’ ar-lein Cymraeg Gwaith – Rhan 2	20	13	7
Cwrs Gwella Cymraeg – Rhan 1	1	1	1



Edrych tua'r dyfodol

47 Bydd camau gweithredu ar gyfer 2026-27 yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

- parhau i gyflawni Strategaeth y Gymraeg trwy ei chynllun gweithredu, ochr yn ochr ag adolygiad o Strategaeth 2023-2027 i oleuo datblygiad y strategaeth nesaf a'r llinell amser ar gyfer ei gweithredu;
- gwella ein hadnoddau mewnol trwy adolygu a datblygu'r tudalennau Cymraeg ar Hwb, gan gynnwys y cynnwys i staff Cymraeg megis canllawiau ynghylch pecynnau TG, dysgu Cymraeg, arddull ysgrifennu, a therminoleg gyson;
- cryfhau gallu'r gweithlu trwy ddatblygu a gwreiddio Polisi Sgiliau Cymraeg o fewn polisiau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol, a sicrhau y gellir darparu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg lle y bo angen, gan gynnwys cymorth ar gyfer gwaith archwilio;
- cynorthwyo staff i ddatblygu a defnyddio'r Gymraeg trwy greu mannau diogel i ddysgwyr ac ehangu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn ymarferol, gyda mewnbwn gan y Grŵp Cymraeg;
- datblygu'r Grŵp Cymraeg ymhellach i sicrhau bod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a bod eu barn yn goleuo gwelliannau parhaus; a hefyd
- parhau i fireinio trefniadau llywodraethu ac ymgysylltu, gan gynnwys mewnbwn gan Grŵp Strategaeth y Gymraeg, i roi cymorth i wella'n barhaus a gwireddu ein huchelgais i fod yn sefydliad cwbl ddwyieithog lle mae staff yn gallu 'gweld, clywed a defnyddio' y Gymraeg.



Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y modd y mae'r sefydliadau hyn yn defnyddio adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni eu gwaith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.